# Rhestr wirio sy'n cynnwys cwestiynau i'w hystyried wrth gynllunio i ddiweddaru technoleg

## 1. Arolygwch amgylchedd eich technoleg

**Ewch ati'n barhaus i fonitro eich technoleg:**

- Pa mor hen yw eich systemau a'ch dyfeisiau (cadwch olwg am rai sy'n hŷn na 5 oed)?
- A oes gennych gynhyrchion sydd wedi cyrraedd diwedd eu hoes, neu gynhyrchion digymorth?
- A yw eich meddalwedd a'ch systemau gweithredu yn cael cymorth gan y gwerthwr, a ydynt wedi cael eu patsio neu eu diweddaru?
- A oes gennych feddalwedd gwrthfirysau ddigonol ac effeithiol?
- Beth yw'r costau presennol ar gyfer gwaith cynnal a chadw, cymorth a thrwyddedu?
- A oes gan yr holl systemau berchennog busnes clir?
- Pwy yw gwerthwyr/cyflenwyr eich systemau?
- A yw eich technoleg yn dal i ddiwallu anghenion strategol eich sefydliad?

## 2. Ewch ati i flaenoriaethu ac ystyried gwerth

**Pennwch fanteision, risgiau, brys, costau a chapasiti TG:**

- A ydych yn gwybod beth yw eich nodau a'ch anghenion ar gyfer system newydd?
- A ydych yn gwybod beth yw'r costau y bydd yn rhaid ichi eu talu ymlaen llaw ynghyd â'r costau cylchol ar gyfer cyflwyno system newydd?
- A yw'r staff TG yn meddu ar y sgiliau a'r gallu i gefnogi system newydd? A fydd angen ichi gyllidebu ar gyfer cymorth gan gontractwyr allanol?
- A yw'r system yn storio data gwerthfawr iawn na allwch fforddio ei golli?
- A yw'r system yn hollbwysig i'r busnes?
- A yw'r gwaith uwchraddio yn hanfodol, yn ddymunol ynteu'n ddiangen?

- A fyddai uwchraddio'r system yn esgor ar werth strategol clir ac adenillion ar fuddsoddi?
- Sut y bydd y newid hwn yn gwella gwasanaethau neu'n sbarduno cynhyrchiant?
- A oes yna broblemau penodol rydych yn awyddus i'w datrys trwy roi system newydd ar waith?
- A yw'r gwaith uwchraddio yn cyd-fynd â'ch strategaeth TG gyffredinol?

## 3. Anelwch at symleiddio

### Chwiliwch am gyfleoedd i safoni a symleiddio:

- A oes gennych amryfal systemau sy'n cyflawni'r un swyddogaeth, ac os felly a allwch eu cyfuno er mwyn lleihau costau?
- A allwch weld unrhyw gyfleoedd i safoni technoleg ledled y sefydliad? A oes gennych system sy'n cynnwys amryfal fodiwlau nad ydych yn eu defnyddio?
- A oes yna opsiynau i awtomeiddio prosesau a rhyddhau amser eich timau TG e.e. trwy ddefnyddio system gwmwl a gaiff ei diweddaru'n awtomatig?
- A oes modd cynyddu maint y system newydd? A oes modd iddi dyfu ac addasu er mwyn bodloni anghenion newidiol, ynghyd â chynnydd mewn data a niferoedd y defnyddwyr?
- A yw'r system newydd yn gynnyrch parod 'oddi ar y silff'? Beth yw'r goblygiadau o ran ei haddasu?

## 4. Amserwch bethau'n ofalus a chofiwch gyfathrebu

### Siaradwch â gweithwyr ledled eich sefydliad:

- I ba raddau y byddant yn fodlon goddef 'amser segur' tra bydd y system yn cael ei rhoi ar waith?
- Pa mor gyfforddus ydynt â thechnoleg newydd?
- Faint o gymorth y bydd y gweithwyr ei angen?
- Pa dimau y bydd angen eu cynnwys yn y dasg o roi system newydd ar waith?
- A yw'r staff oddi allan i'r adran TG ar gael ac yn fodlon cymryd rhan mewn gweithgareddau fel casglu anghenion, glanhau data, profi a hyfforddi?
- Sut y byddwch yn cyfathrebu eich amserlen ar gyfer gweithredu system newydd?

## 5. Profwch cyn buddsoddi

**Ystyriwch ddefnyddio prawf cysyniad neu dreial:**

- A ydych yn gwybod pa anghenion a gaiff eu profi ar gyfer y system newydd?
- A yw cyflenwr y system newydd yn cynnig arddangosiadau neu gymorth ar gyfer profion cysyniad neu dreialon?
- Sut y byddwch yn mesur llwyddiant prawf cysyniad neu dreial?
- Sut y byddwch yn cyfathrebu'r canlyniadau?

## 6. Paratowch ar gyfer yr annisgwyl

**Ymchwiliwch i'r system newydd a pharatowch ar gyfer problemau neu gostau cudd:**

- Beth allwch chi ei ddysgu ar sail prosiectau blaenorol lle'r aethpwyd ati i ddiweddaru technoleg? A ddaethpwyd ar draws unrhyw heriau annisgwyl?
- A ydych wedi ystyried problemau neu newidiadau posibl, neu anghenion newydd yn y gyllideb neu'r amserlen weithredu?
- A fydd yna unrhyw gostau cylchol ar gyfer uwchraddio, trwyddedu neu gymorth?
- A ydych yn gwybod beth yw map trywydd y gwerthwr ar gyfer y system newydd?

## 7. Cofiwch am y data

**Meddyliwch am werth a statws y data a gedwir yn eich hen system:**

- A oes gennych gynllun ar gyfer mynd ati mewn modd diogel i ddinistrio data diangen yn eich hen system?
- A ydych yn dal i fod angen yr holl ddata y byddwch yn ei symud? A yw'n gywir ac yn gyfredol?
- A yw eich staff a'ch cwsmeriaid angen parhau i gael gafael ar yr holl ddata? A fydd eich data'n parhau i fod ar gael yn ystod y broses fudo?
- A ydych yn bwriadu symud data personol neu ariannol? A ydych yn gwybod pa gamau y bydd angen eu rhoi ar waith i sicrhau diogelwch a chydymffurfiaeth?